## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 12 Mawrth 2003 | |
| **Amser:** | 9.00am hyd 12.20pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| | Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | Geraint Davies | Y Rhondda |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Lynne Neagle | Tor-faen |
| | **Aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Eitem 2)** | |
| | Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| | Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| | **Hefyd yn bresennol** | |
| | Mallory Armstrong | Ystadau Iechyd Cymru |
| | Neil Davies | Ystadau Iechyd Cymru |
| | Tony Garthwaite | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Swyddogion yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Ken Alexander | Is-Adran Ansawdd GIG |
| Stuart Fletcher | Adran GIG Cymru |
| Therese Gray | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Dr Ruth Hall | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Keith Ingham | Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |
| Maria Michael | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Steve Milsom | Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Mike Shanahan | Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Bob Woodward | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |

**Yr Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i'r Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: "Ar Goll mewn Gofal" - Adroddiad ar Dribiwnlys yr Ymchwiliad i Gamdriniaeth Plant mewn Gofal yng Ngogledd Cymru (Adroddiad Waterhouse)** *(9.05 - 10.10am)*
**Papur: HSS-04-03(p.1)**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Tony Garthwaite, a oedd yn cynrychioli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd yr Aelodau yn siomedig nad oedd cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gallu bod yn bresennol. Credai Aelodau'r Pwyllgor ei bod yn bwysig clywed sut roedd llywodraeth leol yn rhoi'r argymhellion ar waith. Cytunwyd y byddai awr yn cael ei neilltuo yn y cyfarfod ar 26 Mawrth ar gyfer trafod yr eitem hon ymhellach a byddai'r Cadeirydd yn gwahodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fod yn bresennol.

2.2 Cyflwynodd y Gweinidog y papur, a oedd yn cyflwyno'r newyddion diweddaraf ynghylch y cynnydd o ran rhoi'r 72 o argymhellion a wnaed yn "Ar Goll mewn Gofal" (Adroddiad Waterhouse) ar waith. Nododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol mewn ymateb:

- Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd ond saith o blith y pymtheg awdurdod lleol wedi penodi swyddog cwynion penodol i blant, ac nid oedd unrhyw sicrwydd nad oedd y swyddogion cwynion hynny yn rheolwyr staff y gallai cwynion gael eu gwneud amdanynt. Tynnodd adroddiad Waterhouse sylw at y mater hwn. Mynegodd y Comisiynydd Plant bryder ynghylch y mater hwn yn ogystal yn ei adroddiad ' Datgan Pryderon'.
- Er bod y ddogfen yn amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau a gyflwynwyd yn sgîl adroddiad Waterhouse, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod newidiadau wedi cael eu gwneud o fewn awdurdodau lleol na thystiolaeth fod gofal yn gwella.
- Credwyd bod diffyg cysondeb o ran dulliau awdurdodau lleol o ymdrin â'u cyfrifoldebau o ran rhianta corfforaethol ac roedd y diffyg cysondeb hwn yn peri problemau o ran gofal a ddarparwyd ar draws ffiniau. Roedd angen egluro cyfrifoldebau aelodau'r wrth-blaid o dan system gabinet llywodraeth leol.
- Nid oedd anghenion staff a oedd yn cael eu cyhuddo ar gam yn cael eu bodloni'n briodol.

2.3 Nododd Tony Garthwaite y pwyntiau canlynol mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau:

- Argymhellodd Waterhouse y dylid penodi swyddog cwynion penodol i blant gan fod angen proses syml ar blant i fynegi eu cwynion, yn hytrach na'r system fiwrocrataidd sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau cwynion i oedolion. Nid oedd yn ymarferol i awdurdodau llai benodi swyddog cwynion penodol i blant, ac roedd trafodaethau'n parhau â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o ran a oedd angen penodi swyddog llawnamser. Y flaenoriaeth oedd galluogi plant i leisio eu pryderon yn rhwydd ac yn ddiogel i berson a oedd yn gyfarwydd â phlant ac nad oedd yn gysylltiedig â rheoli.
- Nid oedd unrhyw wasanaeth arall o fewn llywodraeth leol yn cael ei fonitro mor ofalus â Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd gwahanol systemau yn bodoli a fyddai'n bodloni'r Cynulliad fod newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud, e.e. archwiliadau ac adolygiadau ar y cyd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
- Roedd angen i lywodraeth leol addasu o fewn yr agenda foderneiddio er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac roedd rhai awdurdodau yn arloesol iawn o ran gwneud hynny. Roedd gan y cyfrifoldeb corfforaethol oblygiadau i staff ac i aelodau.
- Roedd cynnydd yn nifer yr achosion o faethu, a oedd yn anoddach i'w rheoli a'u monitro. Roedd yn anodd denu digon o rieni maeth.
- Roedd y mecanwaith a'r seilwaith bellach yn bodoli i orchfygu problemau o ran recriwtio a chadw, er na fyddai hyn yn digwydd dros nos.
- Efallai nad yw rhai awdurdodau yn darparu gwasanaethau mabwysiadu oherwydd y pwysau ar staff, ond nid dyma'r arfer cyffredin.
- Roedd Chwythu'r chwiban yn rhan integredig a derbyniol o ddiwylliant awdurdodau lleol a disgwylid i staff dynnu sylw at faterion na fyddai wedi'u crybwyll o'r blaen.
- Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol unigol oedd gosod y lefelau cyflog bellach ac roedd hyn yn achosi cryn anawsterau gan fod staff yn cael eu denu gan gyflogau uwch mewn awdurdodau eraill. Roedd Comisiwn Cyflog wrthi'n edrych ar y darlun cyffredinol o ran cyflogau a gallai Cyfarwyddwyr

Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn hwnnw.
- Roedd trefniadau gofal plant diogel bellach yn bodoli ac roedd tystiolaeth i gefnogi hyn.

2.4 Cyflwynodd y Gweinidog a'i swyddogion y pwyntiau canlynol:

- Roedd y safonau gofynnol cenedlaethol, y dangosyddion perfformiad a'r ddeddfwriaeth a oedd bellach yn bodoli yn ategu'r gwaith a oedd yn cael ei wneud yn lleol.
- Byddai adroddiad yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyfarfod ar 26 Mawrth ynghylch canlyniadau Rhoi Plant yn Gyntaf, gan mai dyma'r prif ysgogiad ar gyfer rhoi argymhellion Waterhouse ar waith.
- Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb i adroddiad y Comisiynydd Plant "Datgan Pryderon".
- Roedd Grwp Gorchwyl a Gorffen wedi adolygu'r ddarpariaeth bresennol o eiriolaeth ar ôl i Gymdeithas y Plant ymadael â Chymru. Cyhoeddwyd y safonau cenedlaethol ar gyfer darparu eiriolaeth i blant ym mis Chwefror felly roeddent yn newydd iawn o hyd ond fe'u datblygwyd drwy ymgynghori â'r Adran Iechyd ac fe'u haddaswyd i'w defnyddio yng Nghymru. Roedd y rhain yn darparu fframwaith i awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ddatblygu a chryfhau gwasanaethau.
- Roedd materion ynghylch y gweithlu yr oedd angen eu datrys. Roedd y rhain yn gysylltiedig â phobl a hefyd â'r sgiliau a'r profiad sy'n gysylltiedig â datblygu gwasanaethau cwyno ac eiriolaeth. Roedd angen yr hyfforddiant, y wybodaeth a'r arbenigedd ar lywodraeth leol i gomisiynu'n briodol wasanaethau cwyno ac eiriolaeth.
- Roedd Cynulliad Cymru bellach wedi derbyn argymhellion yr adroddiad ynghylch marwolaeth Victoria Climbié. Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol ynghylch yr argymhellion a oedd yn berthnasol iddynt, a byddai'r Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu fframwaith archwilio iddynt ymateb iddo, a fyddai'n cael ei fonitro'n ofalus.
- Nid yw erioed wedi bod yn ofynnol yn statudol i aelodau etholedig awdurdodau lleol ymweld â chartrefi plant. Serch hynny, arferai rhai awdurdodau lleol drefnu i aelodau etholedig ymweld â hwy gan gynnwys cyn siroedd Gwynedd a Chlwyd. Daeth Waterhouse i'r casgliad nad oedd yr aelodau etholedig a oedd yn gysylltiedig â'r achosion yr archwiliodd ef wedi'u hyfforddi ar gyfer yr ymweliadau. Os oedd aelodau etholedig yn ymgymryd ag ymweliadau statudol roedd angen iddynt fod yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â'r gofynion statudol ynghylch amlder yr ymweliadau a sicrhau bod y cartref yn cydymffurfio â gofynion statudol, er enghraifft cadw cofnodion.
- Awgrymwyd mai swyddogion ddylai ymgymryd ag ymweliadau statudol, ond y gallai aelodau etholedig ymgymryd ag ymweliadau nad ydynt yn rhai statudol yn amodol ar amodau priodol.
- Roedd gwaith y Cyngor Gofal ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o ran monitro awdurdodau lleol yn bwysig.

**Camau i'w cymryd**

- Byddai cofnodion trafodaeth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch rhianta corfforaethol yn cael eu dosbarthu.
- Bydd papur yn cael ei baratoi ar ganlyniadau Rhoi Plant yn Gyntaf.

**Eitem 3: Ystad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol** *(10.20 - 11.10am)*
**Papur: HSS-04-03(p.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Neil Davies a Mallory Armstrong o Ystadau Iechyd Cymru.

3.2 Nododd Mallory Armstrong fod arolwg o adeiladau holl feddygfeydd Cymru wedi'i gwblhau. Er bod gwasanaethau yn bwysicach nag adeiladau, gallai adeiladau gael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir a gellid defnyddio canlyniadau'r arolwg i gynllunio'n strategol sut gallai'r ystad gynorthwyo â darparu gwasanaethau.

3.3 Cynhaliwyd cynllun peilot yn Rhondda Cynon Taf er mwyn datblygu strategaeth ystadau gofal sylfaenol pathfinder. Bu cynrychiolwyr o'r holl grwpiau rhanddeiliaid yn gysylltiedig â'r broses benderfynu er mwyn sicrhau perchenogaeth. Cytunwyd mai model prif gorff ac is-sefydliadau fyddai'r ffordd ymlaen fwyaf priodol. Byddai hyn yn golygu ad-drefniad sylweddol o'r ystad presennol o 64 adeilad i 40. Byddai 50% ohonynt yn adeiladau newydd. Y gwariant cyfalaf amcangyfrifol fyddai £20m dros y 10 mlynedd nesaf.

3.4 Ymatebodd y Gweinidog a'i swyddogion i sylwadau'r Aelodau fel a ganlyn:

- Cynhyrchwyd y Fframwaith Strategol Ystadau Cenedlaethol ym mis Hydref 2002. Bu i'r fframwaith bennu'r ffordd ymlaen ac amlinellodd y gofyn i awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd i reoli'r ystad mewn ffordd fwy blaenweithgar.
- Byddai'r fframwaith a'r cynlluniau a lunnir gan ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol yn cael eu harchwilio'n fanwl.
- Penodwyd Stuart Fletcher i arwain Yr Is-adran Ystadau o fewn y Cynulliad.
- Roedd ardaloedd lle roedd cydymffurfio â rheoliadau tân yn broblem a neilltuwyd £6m yn y flwyddyn flaenorol i wella hyn.
- Cynhaliwyd adolygiadau blynyddol o ystadau ag ymddiriedolaethau. Roedd y rhain yn rhoi gwell darlun o'r union broblemau a oedd yn bodoli ymhob ymddiriedolaeth.
- Cymeradwywyd yr achos busnes llawn ar gyfer ail ysbyty Y Rhondda ar 4 Chwefror. Dylai'r gwaith ar yr ysbyty ddechrau'n fuan.
- Datblygwyd dull o weithio mewn ffordd strategol a oedd yn rhoi mwy o anogaeth i ymddiriedolaethau waredu adeiladau nad oeddent yn eu defnyddio.
- Roedd angen cryn dipyn o gyfalaf ar yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans gan fod ganddi gymaint o adeiladau bychan a fflyd sylweddol o gerbydau. Roedd angen ailarchwilio'r ffordd yr oedd yr ystad yn cael ei hariannu a'i rheoli.

3.5 Cyflwynodd Mallory Armstrong a Neil Davies y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Yn y gorffennol, Meddygon Teulu oedd yn penderfynu ble roeddent yn dymuno lleoli eu meddygfa ac nid oedd awdurdodau lleol yn edrych ar y mater mewn ffordd strategol. Bellach byddai Byrddau Iechyd Lleol yn rheoli'r sefyllfa gan sicrhau bod meddygfeydd yn cael eu lleoli yn yr ardaloedd yr oedd mwyaf eu hangen arnynt.
- Byddai trefniadau rhwydweithio yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o'r Ganolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol yn Llwynypia.

- Roedd y broses ymgynghori ynghylch cynllun Rhondda Cynon Taf wedi cynnwys contractwyr gofal sylfaenol eraill ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd.
- Cyfrifoldeb yr ymddiriedolaethau oedd oedd rheoli'r ystad, a'r Cynulliad oedd yn gyfrifol am roi arweiniad i'r ymddiriedolaethau mewn ffordd briodol a strategol. Roedd gan Ystadau Iechyd Cymru yr arbenigedd a'r wybodaeth i gynorthwyo'r ddau gorff.
- Amcangyfrifwyd bod angen oddeutu £170 miliwn y flwyddyn ar gyfer y degawd nesaf. Ceir diffyg o oddeutu £40 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd ac er bod y ffigur hwn yn sylweddol, ni chredir y byddai'n bosibl gwario mwy ar hyn o bryd.
- Roedd y mecanweithiau ar gyfer newid mewn lle ond roedd llawer iawn i'w wneud o hyd. Roedd Ystadau Iechyd Cymru yn cynnal cyfarfodydd adolygu strategol ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd ag ymddiriedolaethau.
- Ni fyddai cyflwyno cynlluniau llai yn rhwystro'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans rhag gofyn am gymorth gan y Cynulliad, ond efallai y bydd yn rhaid iddi lunio nifer o gynlluniau, efallai ar sail rhanbarthol.
- Cost amcangyfrifol bodloni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2004 oedd £32m. Roedd ymddiriedolaethau yn cydweithio â grwpiau anableddau i orchfygu anawsterau ac i benderfynu ynghylch camau gweithredu priodol, ac roedd Ystadau Iechyd Cymru yn monitro'r gwaith.

**Eitem 4: Rheoliadau Asiantaethau Gofal yn y Cartref (Cymru)** *(11.25 - 12.10pm)*
**Papur: HSS-04-03(p.3)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur, a oedd yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gofal yn y cartref personol. Nododd y byddai'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau yn cael ei hymestyn hyd hydref 2003.

4.2 Tynnodd yr Aelodau sylw at nifer o faterion yr oedd angen mynd i'r afael â hwy yn eu barn hwy wrth bennu'r safonau a'r rheoliadau terfynol:

- Roedd angen ystyried goblygiadau cost hyfforddi staff i dderbyn y cymwysterau priodol yr oedd eu hangen arnynt a gofynnwyd am ddadansoddiad cost o ran effaith cyflwyno'r rheoliadau a'r safonau.
- Dylid cydnabod yr amrywiaeth o ran modelau rheoli yn y sector gwirfoddol.
- Roedd angen hyblygrwydd yn y lefel gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion unigolion o ran gofal.
- Os byddai'r rheoliadau yn cael eu cyflwyno'n briodol byddai'n rhaid i gomisiynwyr ystyried ansawdd y gwasanaeth yn hytrach na'r pris isaf.
- Roedd angen rhoi mwy o bwyslais ar ofal anffurfiol a'r cysylltiad rhyngddo â'r asiantaethau gofal mwy ffurfiol.
- Awgrymwyd bod y gofyn yn y safonau ".. na ddylai gweithwyr gofal cartref na chymorth fyth geisio elwa ar y gofal y maent yn ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy dderbyn rhoddion neu gymynroddion sylweddol" yn ormodol a gallai gael ei herio o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Y mater pwysicaf mewn gwirionedd ddylai sicrhau bod mecanwaith yn bodoli i gofnodi a monitro rhoddion.
- Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd y rheoliadau yn berthnasol i unigolion a oedd yn darparu gofal i nifer o bobl. Awgrymwyd y dylid cyfyngu ar nifer yr unigolion y gall gweithiwr gofal unigol edrych ar eu hôl er mwyn ceisio lleihau cyfleoedd i gam-drin y system.
- Roedd Safon 16.4 ar y ffurf y'i drafftiwyd yn amwys ac roedd angen ei hegluro.

- Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i ofalwyr anffurfiol ac nid oedd unrhyw ddiffiniad o ofalwr yn y Rhestr Termau.
- Safon 12.10 - Roedd angen egluro'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw a sicrhau diogelwch offer llaw.
- Safon 12.12 - Byddai "person cyfrifol a chymwys" yn rheolwr gwasanaeth gan amlaf ond mae llawer o fudiadau gwirfoddol wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i ymddiriedolwr. Er bod sicrhau mynediad cyflym at staff gofal yn bwysig, roedd angen cydnabod effaith hyn ar ddarparwyr bychan.
- Safon 20.2 - gofynnwyd am eglurhad ynghylch ai 6 mis ar ôl cwblhau cyfnod prawf yn foddhaol ydoedd ynteu 6 mis ar ôl cychwyn yn y swydd. Os mai'r ail sy'n berthnasol gallai olygu goblygiadau cost sylweddol o ran hyfforddi staff na fydd efallai yn cwblhau eu cyfnod prawf.
- Safon 20.5 - gofynnwyd am fanylion ynghylch cymhwyster rheoli a oedd yn cyfateb i NVQ lefel 4.
- Safon 25.1 - gallai adolygu'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau bob blwyddyn fod yn faich. Efallai y byddai adolygu meysydd penodol yn flynyddol yn fwy priodol.
- Dylid addasu Paragraff 21 y rheoliadau fel ei fod yn nodi "Bydd y person cofrestredig yn sefydlu gweithdrefn ar gyfer ystyried cwynion a gyflwynir i'r person cofrestredig gan ddefnyddwyr gwasanaethau *neu eu cynrychiolydd*" gan nad oedd yr holl ddefnyddwyr yn gallu gwneud cwynion drostynt eu hunain.
- Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd y rheoliadau ar eu ffurf presennol yn ymdrin yn ddigonol ag anghenion unigolion, yn bennaf ag anableddau dysgu, a oedd yn derbyn llety a gofal yn y cartref gan fudiadau tai â chymorth.

4.3 Cyflwynodd y Gweinidog a'i swyddogion yr eglurhad canlynol:

- Cydnabyddwyd y costau ychwanegol, ac yn arbennig o ran hyfforddiant.
- Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffi rheoleiddio gostyngol ar gyfer darparwyr bychan.
- Bwriad y safon o ran derbyn rhoddion oedd diogelu pobl sy'n agored i niwed rhag wynebu pwysau. Byddai'r pwynt yn cael ei gyfeirio i'r Grwp Gorchwyl a Gorffen.
- Credai'r Grwp Gorchwyl a Gorffen y byddai'n ddefnyddiol cynhyrchu canllawiau atodol i gynorthwyo defnyddwyr a darparwyr i ddeall y system newydd.
- Byddai'r pwyntiau a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys darparwyr gofal unigol, ymddiriedolwyr mewn mudiadau gwirfoddol, ynghyd â'r materion eraill a drafodwyd, yn cael eu cyflwyno i'r Grwp Gorchwyl a Gorffen.

4.4. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor priodol ddymuno archwilio'r rheoliadau ar ôl i'r fersiwn drafft gael ei gwblhau.

**Eitem 5: Rheoliadau Comisiwn Gwella Iechyd (Diwygio) (Cymru)**
**Papur: HSS-04-03(p.4)**

5.1 Ni chyflwynwyd unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau.

5.2 Cadarnhaodd Ken Alexander y byddai'r Comisiwn Gwella Iechyd yn cynnal asesiad cychwynnol o unrhyw gwyn cyn dechrau ymchwiliad ar raddfa lawn.

5.3 Nododd y Gweinidog ei bod wedi cynnwys y newyddion diweddaraf ynghylch y rhaglen waith yn ei

hadroddiad misol yn y gorffennol, ac ni allai weld unrhyw reswm pam na fyddai'n bosibl ei chyhoeddi yn y dyfodol.

**Eitem 6: Cofnodion 26 Chwefror 2003**
**Papur: HSS-03-03(min)**

6.1 Cymeradwywyd cofnodion 26 Chwefror. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Eitem 7: Unrhyw Fater Arall**

7.1 Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylai Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (Diwygio) 2003 barhau o dan y weithdrefn Safonol ar gyfer trafod yn y Cyfarfod Llawn. Gobeithid mai effaith fwriadol y Rheoliadau fyddai cyflwyno'r trefniadau trosglwyddo a gynhwysir yn y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru), a gyflwynwyd ar 6 Chwefror 2003, yn lle'r rhai presennol. Diben hyn oedd galluogi asiantaethau maethu presennol i gyflwyno cais am gofrestriad dros dro cyn 1 Gorffennaf 2003 a datgymhwyso darpariaethau o ran troseddau ar gyfer y rhai sy'n cyflwyno ceisiadau o'r fath. Byddai hynny'n galluogi asiantaethau presennol i barhau i ddarparu gwasanaethau maethu yn amodol ar benderfyniad gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ynghylch cofrestriad ffurfiol.